

Ein Gwlad

Darllen: Salm 33:12

Gŵr o egwyddor oedd Naboth. Gwrthododd werthu gwinllan ei deulu i'r brenin Ahab. Roedd y winllan yn ffinio â'r palas, ac roedd Ahab yn awyddus iawn i'w phrynu neu ei chyfnewid am winllan arall. Ond ateb Naboth oedd, 'Yr Arglwydd a'm gwaredo rhag rhoi i ti etifeddiaeth fy hynafiaid' (1 Brenhinoedd 21:3). Dychwelodd y brenin yn ddigalon a dig, a gwrthododd fwyta. Llwyddodd Jesebel, ei wraig, i ddarganfod achos ei dristwch a rhyfeddai na fyddai ei gŵr, ac yntau'n frenin, yn hawlio'r winllan. Ysgrifennodd lythyrau yn enw ei gŵr at uchelwyr y ddinas, a chyflogi dau ddihiryn i ddwyn camdystiolaeth yn erbyn Naboth. Gwnaed hynny, a llabyddiwyd Naboth y tu allan i furiau'r ddinas. Pan glywodd Jesebel y 'newyddion' da, meddai wrth ei gŵr, 'Cod, meddianna'r winllan y gwrthododd Naboth y Jesreeliad ei hildio iti am arian. Nid yw Naboth yn fyw; y mae wedi marw' (15). Beth sydd gan Naboth i'w ddweud wrthym fel cenedl heddiw?

Fel Iddew o argyhoeddiad, roedd Naboth yn ymwybodol o'r ffaith nad ef oedd piau'r winllan. Eiddo Duw oedd y winllan, wedi ei throsglwyddo iddo ac wedi ei hymddiried i'w ofal gan ei dadau. Yn yr Hen Destament, mynegir mai eiddo Duw yw tir Israel. Mae hynny'n ein harwain i feddwl am greadigaeth Duw. Eiddo Duw ydi'r greadigaeth. Duw ydi'r Creawdwr, a'n gwaith ni ydi gofalu am y greadigaeth a'i throsglwyddo i'r cenedlaethau fydd yn ein dilyn. A'r dasg ydi cynnig rhywbeth gwell i'n plant ac i blant ein plant.

'Etifeddiaeth fy hynafiaid' oedd geiriau Naboth, ac mae'r geiriau'n drwm lwythog o ystyr. Roedd y winllan yn rhan o'r etifeddiaeth a drosglwyddwyd iddo gan ei hynafiaid, a chredai fod dyletswydd arno i'w gwarchod a'i chadw. Naboth oedd y ddolen gyswllt rhwng ddoe ac yfory. A phetai'n gwerthu'r winllan byddai wedi bradychu Arglwydd y winllan, ynghyd â'i deulu, a cholli'r etifeddiaeth am byth. 'Gwinllan a roddwyd i'n gofal yw

Cymru fy ngwlad, i'w thraddodi i'm plant ac i blant fy mhlant yn dreftadaeth dragwyddol,' meddai Saunders Lewis. Pa mor deyrngar a gofalus ydyn ni o'n gwinllan? Rhodd Duw i ni yw Cymru, i'w gwarchod ac i ofalu amdani a'i thraddodiadau a'i diwylliannau a'i hiaith ac yn bennaf oll yr Efengyl a roddwyd iddi. Mae Duw wedi bod yn dda wrthym fel cenedl. Pa ran ydyn ni'n chwarae yn heddiw ac yfory ein cenedl?

Ond pa mor dda bynnag ydi'n cenedl, byddwn wylidwrus rhag ofn i ni feddwl fod ein cenedl ni'n well nag unrhyw genedl arall. Dyna oedd gwendid y genedl Iddewig, a chafodd Simon Pedr brofiad byw o hyn pan welodd 'rhywbeth fel hwyl fawr yn disgyn ac yn cael ei gollwng wrth bedair congl tua'r ddaear' (Actau 10:11). Deallodd Pedr ar unwaith nad Duw'r Iddew yn unig oedd Duw, ond Duw'r cenedloedd hefyd. A dyna a'i sbardunodd i fynd allan o'i gynefin i ledaenu Efengyl Iesu Grist. Rhwygo a rhannu a wna gwladwriaethau heddiw. Nod Efengyl Iesu ydi cyfannu, a phwysleisio'r tebygrwydd rhwng y cenedloedd. Y byd i gyd yw Gwinllan Naboth.

Myfyrdod pellach:

Ystyriwch sut y bu Duw, yn y gorffennol, yn dda wrth Gymru?

Beth sy'n ein gwneud yn genedl?